# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2023

Amser: 13.30 - 15.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13580) yn:

http://senedd.tv/cy/13580

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Debra Carter, Llywodraeth Cymru<br>Ruth Cornick, Llywodraeth Cymru<br>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Simon Tew, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): Sesiwn Dystiolaeth

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)422 – Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)421 Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)406 – Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

### 4.2 SL(6)417 – Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y
Gweinidog Newid Hinsawdd.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau: Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y

Pwyllgor Deisebau a'r ddeiseb roedd yn tynnu sylw ati. Nododd hefyd yr ohebiaeth gan y Deisebydd at y Pwyllgor Deisebau

### 6.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd: Bil Rhentwyr (Diwygio)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y

Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd.

### 6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Cyllid: Bil Seilwaith (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y

Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Cyllid.

### 6.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Arferion gosod preswyl

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y

Gweinidog Newid Hinsawdd.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog gyda chwestiynau atodol.

## 9 Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE: Diweddariad

Trafododd y pwyllgor ei ddull gweithredu i roi cyhoeddusrwydd i'w adroddiad ar lywodraethiant y DU a'r UE, a chytunodd arno

## 10 Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021-2026 – Adroddiad blynyddol 2022-2023

Trafododd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol a chytunodd i wahodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad i sesiwn graffu gyffredinol yn y flwyddyn newydd, pryd y gellid rhoi ystyriaeth bellach i'r Adroddiad Blynyddol.

## 11 Gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan: Ymateb drafft i'r Pwyllgor Busnes

Trafododd y Pwyllgor ei ymateb i weithdrefnau'r Pwyllgor Busnes ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan.

## 12 Blaenraglen Waith

Nododd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith a chytunodd arni.